# Adroddiad Blynyddol Grŵp Trawsbleidiol

## Manylion y Grŵp Trawsbleidiol:

| | |
|---|---|
| Teitl y Grŵp Trawsbleidiol: | Adeiladu |
| **Aelodaeth y Grŵp a deiliaid swyddi:** | |
| Enw Cadeirydd y Grŵp: | Joyce Watson AS |
| Enwau'r Aelodau eraill o'r Senedd: | Mike Hedges AS<br>Jenny Rathbone AS<br>Mabon ap Gwynfor AS<br>Huw Irranca-Davies AS<br>Mark Isherwood AS<br>David Rees AS |
| Enw'r Ysgrifennydd a'r Sefydliad: | Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu |
| Enwau'r aelodau allanol eraill a'r sefydliadau y maent yn eu cynrychioli: | Cartrefi Cymunedol Cymru<br>Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu<br>Ynni Cymunedol Cymru<br>Dave Kleft<br>Llywodraeth Cymru<br>Cymdeithas Contractwyr Peirianneg Sifil<br>Bouygues UK<br>Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr<br>Sefydliad y Peirianwyr Sifil<br>Y Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi<br>SEC group<br>WRW<br>Y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol |

| | |
|---|---|
| | Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig |

## Cyfarfodydd eraill y Grŵp ers y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol diwethaf

| Cyfarfod 1 | |
|---|---|
| Dyddiad y cyfarfod: | 29.11.21 |
| Yn bresennol: | Joyce Watson AS (JW)<br>Mike Hedges AS (MH)<br>Jenny Rathbone AS (JR)<br>Mabon ap Gwynfor AS (MAG)<br>Huw Irranca-Davies AS (HID)<br>Nitesh Patel, Staff Cymorth (NP)<br>Ryland Doyle, Staff Cymorth (RD)<br>Mark Bodger, Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu (MB)<br>Alex Rawlins, Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu (AR)<br>Ken Pearson, Bluestone Builders (KP)<br>Ed Evans, Cymdeithas Contractwyr Peirianneg Sifil (EE)<br>Keith Jones, Sefydliad y Peirianwyr Sifil (KJ)<br>Rob Davies, Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu (RD)<br>Ken Evans (KE)<br>Antonia John, Encon Construction (AJ)<br>Gareth W Evans (GWE)<br>Ifan Glyn, Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr (IG)<br>Leigh Hughes, Bouygues (LH)<br>Catherine Williams, Ynni Cymunedol Cymru (CW)<br>Jim McKirdle (JM)<br>Christopher Hare (CH)<br>Mark Harris, Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi (MH)<br>Jill Fairweather (JF)<br>David Harding (DH)<br>Malcolm Davies (MD) |
| Crynodeb o’r materion a drafodwyd: | |

Dechreuodd y cyfarfod am 09:32. Croesawodd JW yr aelodau a rhoddodd ddiolch iddynt am ddod i'r cyfarfod.

Cyflwynodd JW ei hun fel Cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol. Dywedodd JW fod cyfarfodydd rheolaidd wedi'u cynnal bob blwyddyn dros y blynyddoedd gydag arbenigwyr a rhanddeiliaid yn y sector adeiladu a pheirianneg yn rhoi tystiolaeth. Mae'r cyfarfodydd bob amser wedi bod yn fywiog gyda ffocws dros y blynyddoedd diwethaf ar brinder sgiliau, gan gynnwys gwella cynrychiolaeth yn y diwydiant, a chaffael.

Dywedodd JW ei bod hi'n amlwg bod pandemig Covid, ynghyd ag effaith Brexit, wedi cael effaith sylweddol ar y diwydiant nid yn unig yng Nghymru ond ar draws y DU. Canfu arolwg yn 2021 gan Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr (FMB) fod naw o bob 10 adeiladwr yng Nghymru wedi dweud eu bod wedi gorfod gohirio gwaith oherwydd diffyg deunyddiau neu weithwyr medrus. Yn yr un arolwg, dywedodd 97 y cant o adeiladwyr hefyd fod prisiau deunyddiau wedi cynyddu’n sylweddol, ac roedd 78 y cant o’r ymatebwyr wedi trosglwyddo'r gost gynyddol hon i'w cwsmeriaid. Yn ôl adroddiad gan Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS), mae prinder cynyddol o weithwyr adeiladu, gan gynnwys bricwyr a seiri coed, yn dal cwmnïau yn ôl hefyd ac mae’n anodd iddynt ymdopi â'r galw am dai newydd a
seilwaith newydd. Yn ôl rhagolwg gan Fwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu (CITB), amcangyfrifwyd y bydd angen i’r sector adeiladu yng Nghymru recriwtio 9,250 o weithwyr newydd ychwanegol erbyn 2025 i ateb y galw.

Dywedodd JW mai'r gobaith yn y cyfarfod hwn heddiw yw i bob un ohonom ddod o hyd i ffyrdd o helpu'r diwydiant yn ystod y cyfnod anodd hwn.

Cyn gwahodd siaradwyr i gyflwyno eu cyflwyniadau, dywedodd JW fod camau ffurfiol yr oedd yn rhaid eu cwblhau ar gyfer y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, gan gynnwys ethol y Cadeirydd a'r Ysgrifenyddiaeth.

Enwebodd Mike Hedges AS JW yn Gadeirydd ac eiliodd Mabon ap Gwynfor AS. Enwebodd JW CITB i fod yn Ysgrifenyddiaeth ac eiliodd Mabon ap Gwynfor AS. Nid oedd unrhyw wrthwynebiadau.

Cyflwynodd JW MB, LH ac AJ fel siaradwyr.

Rhoddodd MB gyflwyniad i'r cyfarfod.

Amlinellodd MB y cyd-destun adeiladu presennol yng Nghymru a'r rhagolygon ar gyfer y gofyniad recriwtio blynyddol, y gweithlu, allbwn a heriau, gan nodi'r pwyntiau a ganlyn:

- Gostyngodd allbwn adeiladu yn fwy nag erioed yn 2020 oherwydd effeithiau Covid-19: 20 y cant yng Nghymru a 14 y cant yn y DU. Mae'r diwydiant wedi adfer yn gyflym ers y cyfnod clo cenedlaethol cyntaf, yn bennaf am fod llawer o alw wedi cronni wrth i bobl aros i bethau ddychwelyd i'r hen drefn. Disgwylir i'r allbwn gynyddu'n gryf wrth symud ymlaen.
- Yng Nghymru, rydym yn disgwyl dychwelyd i lefelau'r allbwn cyn y pandemig erbyn 2024 (o gymharu â 2022 ledled y DU).
- Y gyfradd twf cyfartalog flynyddol yng Nghymru yw 2.9 y cant (o gymharu â 3.3 y cant ledled y DU)
- Wrth i'r allbwn wella, mae'r prinder gweithwyr yn gwaethygu. Ar hyn o bryd, mae 3,100 o swyddi adeiladu yng Nghymru, sef 38 y cant yn uwch na lefelau 2019, er nad yw mor uchel â'r uchafbwynt yn 2014, sef 3,800. Mae galw mawr am blymwyr, bricwyr, seiri coed a pheirianwyr sifil yn arbennig.
- Yn hollbwysig i ni, mae nifer y prentisiaethau newydd sy'n dechrau yn ail chwarter 2020/21 tua 15 y cant yn is na'r cyfartaledd o gymharu â'r un adeg yn ystod blynyddoedd cynt.
- Un o'r prif negeseuon yng nghyhoeddiad y Rhwydwaith Sgiliau Adeiladu yw'r gofyniad recriwtio blynyddol. Yng Nghymru, mae'r gofyniad tua 2 y cant y flwyddyn yn uwch na'r newid naturiol. Mae hynny'n dangos bod angen i'r diwydiant recriwtio 2,500 o weithwyr ychwanegol yng Nghymru bob blwyddyn dros y pum mlynedd nesaf i ateb y galw yn y diwydiant am waith. O ystyried mai rhagolwg pum mlynedd a roddir gan y Rhwydwaith Sgiliau Adeiladu, mae angen recriwtio cyfanswm o 12,500 o weithwyr.

  • Oherwydd twf yn ym maes tai preifat a gwaith atgyweirio a chynnal a chadw, mae'r gofyniad recriwtio blynyddol yn arbennig o uchel ar gyfer rhai galwedigaethau, er enghraifft:

  o bricwyr (430) o crefftau trydanol a gwaith gosod trydanol (380) o crefftau pren a gwaith gosod mewnol (390) o towyr (100)
- Mae galw hefyd am rolau technegol, gan gynnwys:
  - penseiri (170) o peirianwyr sifil (150)
  - Gwaith adeiladu dur/saernïo strwythurol (120)

- Disgwylir i gyfanswm gweithlu adeiladu'r DU gynyddu o 116,000 yn 2021 i 124,000 yn 2026. Ni chafodd Covid-19 effaith sylweddol ar weithlu adeiladu Cymru, yn enwedig am fod cynlluniau cymorth cyflogau'r Llywodraeth wedi lleddfu'r ergyd o ran colli swyddi. Fodd bynnag, mae data 2020 yn cael ei adolygu ac ni fyddwn yn gwybod beth yw gwir effaith rhoi'r gorau i'r cynlluniau cymorth cyflogau tan ddechrau'r flwyddyn nesaf. Mae lefelau 2026 yn dal i fod yn is na'r uchafbwynt yn 2008. Rhagwelir mai ymhlith crefftwyr medrus a galwedigaethau technegol y bydd rywfaint o'r twf mwyaf yn ystod cyfnod y rhagolwg.
- Disgwylir i'r diwydiant gyflawni'r un lefelau a welwyd cyn Covid-19 yn 2024 yng Nghymru, gyda chyfraddau twf yn amrywio o 2.0 y cant i 4.1 y cant mewn sectorau penodol. Disgwylir i bob sector adfer yn llawn erbyn 2026, ac eithrio seilwaith (gweler y graff pryderus ar y sleid), masnachol, tai cyhoeddus a diwydiannol. Mae'r ddau sector olaf yn fach. Nid oes prosiect seilwaith mawr ar waith yn ystod y cyfnod tra bod ansicrwydd hirdymor yn effeithio ar y sector masnachol, sy'n deillio o duedd gynyddol tuag at weithio gartref a siopa ar-lein ac sy'n effeithio ar y galw am swyddfeydd a gofod manwerthu. Disgwylir y bydd gwaith atgyweirio, cynnal a chadw a gwella yn gwneud cyfraniad cynyddol, gyda thwf o 2.2 y cant, wrth i'r gwaith o ôl-osod adeiladau presennol er mwyn bodloni targedau allyriadau sero net ddod yn bwysicach. Mae atgyweirio a chynnal a chadw yn cyfrif am tua 40 y cant o gyfanswm yr allbwn adeiladu a disgwylir iddo ragori ar lefelau 2019 21 y cant yn 2026. Gwelwyd twf cyfartalog blynyddol ym maes tai preifat o 3.7 y cant sy'n cael ei lywio gan yr uchelgais i adeiladu cartrefi a chymhelliant y llywodraeth y llynedd, e.e., gohirio'r dreth stamp ac ymestyn cymorth i brynu. Cefnogir hyn hefyd gan ymgyrch y Llywodraeth a'i hymrwymiad i dargedau adeiladu tai, gan gynnwys datblygiad gardd-ddinas yng Nghaerdydd sy'n werth £2 biliwn, sy'n cynnwys adeiladu 7,000 o gartrefi erbyn 2023. Mae tai preifat yn cyfrif am tua 20 y cant o gyfanswm yr allbwn adeiladu a disgwylir iddo ragori ar lefelau 2019 15 y cant yn 2026. O ran gwaith adeiladu nad yw'n dai cyhoeddus, gwelwyd twf cyfartalog blynyddol o 3.6 y cant, gan gynnwys galw mawr am waith ar ysbytai. Rhagwelir y bydd lefelau 2026 yn rhagori ar y lefelau cyn Covid-19 30 y cant, ond y byddant yn dal i fod yn is na'r lefelau yn 2018. Mae gwaith y sector yng Nghymru yn cynnwys prosiect y don nesaf o Ysgolion yr 21ain Ganrif i ddarparu gwerth £1.5 biliwn o ysgolion a cholegau dros y 10 mlynedd nesaf.

- Mae yna rai risgiau mawr a allai effeithio ar yr adferiad:
    - Cynnydd ym mhrisiau deunyddiau – mae problemau o ran galw a'r cyflenwad wedi arwain at gynnydd ym mhrisiau deunyddiau, gan gynnwys sment, dur a choed. Mae hyn yn effeithio mwy ar fusnesau bach a chanolig sy'n ei chael hi'n anodd ysgwyddo'r baich yn sgil y costau cynyddol. Disgwylir i brisiau deunyddiau gynyddu 10 y cant dros y flwyddyn nesaf (ffynhonnell: RICS), yn enwedig am fod y DU yn gadael yr UE, a allai greu ansicrwydd o ran costau ac elw busnesau ac effeithio'n negyddol yn ei dro ar eu lefelau buddsoddi, recriwtio a hyfforddi.
    - Prinder gweithwyr/cystadleuaeth ar gyfer gweithwyr – gostyngodd hunangyflogaeth ym maes adeiladu 13 y cant yn ail chwarter 2021 o gymharu â’r lefelau cyn Covid-19,

yn bennaf am fod gweithwyr hunangyflogedig yn gadael y sector adeiladu. O ystyried bod 40 y cant o'r diwydiant yn hunangyflogedig, mae'r mater hwn yn cyfrannu at brinder gweithwyr, yn enwedig yn y crefftau medrus. Yn y tymor hir, rydym hefyd yn gweld gweithwyr adeiladu yn gadael oherwydd cyfreithiau mewnfudo llym.o Anghysondeb rhwng lefel y galw a nifer y gweithwyr – y nifer uchaf erioed o swyddi gwag ym maes adeiladu yn ogystal ag anghysondeb. Mae galw ar hyn o bryd am grefftwyr medrus a rolau technegol, fel plymwyr a pheirianwyr sifil, ond efallai na fydd gan y gweithwyr sydd ar gael ar hyn o bryd y sgiliau i ateb y galw hwn. Hefyd, efallai na fydd rhywfaint o'r gweithwyr sydd ar gael sydd wedi cwblhau cyrsiau addysg bellach yn barod i weithio o gymharu â'r rheini sydd wedi cwblhau prentisiaethau. Mae llawer o atebion posibl (er bod rhai ohonynt ar raddfa eithaf bach) yn y DU – Kickstart, hyfforddeiaethau mewn sectorau penodol, bŵt-camp sgiliau (gwyrdd) ac ati ond nid yw Llywodraeth Cymru yn cynnig llawer o opsiynau. Yn yr un modd, gall hyn olygu nad yw'r cyrsiau a'r cymwysterau a gynigir yn hollol gywir, sefgwaith y mae'r colegau a'r darparwyr gwasanaethau yn ei ystyried yn gyson. Gwyddom fod gan rai colegau restrau aros ar gyfer prentisiaethau er enghraifft. o Llif prosiectau seilwaith – i'w drafod yma neu yn sleid 5 o Llif prosiectau sero net – yng Nghymru, mae hyn yn gyson ond yn dal yn gymharol fach, gyda sicrwydd o 4-5 mlynedd ar y tro yn unig. Nid oes cynllun ar waith eto ar gyfer sgiliau adeiladu sero net, er bod CITB yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a bod Llywodraeth Cymru yn rhoi tasgau amrywiol i grŵp sgiliau'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio eu gwneud.

- Datblygiadau Covid-19 – mae'n edrych yn llai tebygol, ond fe allai cynnydd mewn achosion Covid arwain at ailgyflwyno mesurau pellter cymdeithasol a'r angen i weithwyr hawlio absenoldeb salwch, sy'n effeithio ar waith adeiladu. A dweud y lleiaf, mae Covid yn effeithio ar nifer y prentisiaethau sy'n cael eu cynnig – bydd y mater hwn yn dod yn arbennig o amlwg y flwyddyn nesaf / yn 2023 pan fydd y nifer fawr o ddysgwyr addysg bellach sy'n dilyn y cymwysterau newydd ar gyfer adeiladu a'r amgylchedd adeiledig yn cwblhau eu hastudiaethau ac nad oes ganddynt lwybr clir ymlaen.
- Ansolfedd – gwnaeth y ffigurau fwy na dyblu ar gyfer cwmnïau adeiladu yng Nghymru a Lloegr gyda'i gilydd yn y 12 mis hyd at fis Awst 2021. Disgwylir i'r ffigurau ansolfedd gynyddu ymhellach gan fod busnesau bach a chanolig yn ei chael hi'n anodd ymdopi â heriau'r diwydiant, tra ei bod yn ymddangos fel petai cwmnïau mawr a phrosiectau mawr yn amsugno'r effaith ac yn parhau i weithredu.

- Daeth MB â’r cyflwyniad i ben drwy amlinellu rhai cwestiynau a phwyntiau trafod. o Mae popeth yn dechrau â’r llif prosiectau. Beth arall y gallwn ni ei wneud i ddylanwadu arno?
    - O ble y daw gweithwyr adeiladu yn y dyfodol i ateb y galw? Sut allwn ni sicrhau bod gweithwyr yn dod o garfanau mwy abl a mwy amrywiol?
    - A oes gennym y cymwysterau, y cyrsiau hyfforddi a'r prentisiaethau sydd eu hangen arnom ar hyn o bryd?
    - Sut allwn ni sicrhau bod gweithwyr newydd yn fwy parod ar gyfer y gwaith ac ar gyfer y safleoedd dan sylw? o Beth am swyddi a sgiliau gwyrdd?

Gofynnodd JR pam nad oedd MB yn fwy cadarnhaol am y gwaith seilwaith a'r gweithlu y bydd eu hangen yn y dyfodol yn sgil adroddiad diweddaraf Hendry a datblygiad metro De-ddwyrain Cymru.

Dywedodd MB mai dim ond cynlluniau cadarn y gellir eu rhoi yn y rhagolwg ac unwaith y bydd y datblygiadau hynny'n cael eu cadarnhau, byddant yn cael eu hychwanegu at y rhagolwg.

Gofynnodd HID a oedd dadansoddiad rhanbarthol o dan y darlun cenedlaethol a sut y mae'n teimlo dros y bum mlynedd nesaf.

Dywedodd MB fod galw ar lefel rhanbarthol. Maent yn gweld galw mawr am brentisiaethau ledled Cymru.

Dywedodd KJ fod y sector yn cael trafferth gyda chynlluniau mwy, diffyg hyder, a'r galw am beirianwyr sifil.

Dywedodd EE fod cydweithio rhwng y sector preifat a'r cyhoedd yn hanfodol. Mae ffordd ymlaen, ond rhaid inni symud y tu hwnt i gysylltiadau cyhoeddus cadarnhaol ac mae angen i'r diwydiant weld y manylion cyn symud ymlaen.

Dywedodd KP fod llawer o sôn am ddatblygiadau posibl ond nad oes cynlluniau pendant. Mae cynllunio yn hollbwysig. Os yw'r diwydiant yn gwybod beth sydd ei angen arno, gall busnesau bach a chanolig dyfu. O ran hyfforddiant, bydd y cwrs adeiladu newydd gan City & Guilds yn dda os gallwn gynnwys busnesau bach a chanolig yn y gwaith ar y lefel briodol.

Cytunodd MB fod angen cynnwys cwmnïau a dywedodd fod y drafodaeth hyd yma wedi canolbwyntio ar sicrwydd o ran y llif prosiectau a'r cyllid cysylltiedig er mwyn gallu datblygu sgiliau a buddsoddi ynddynt.

Cyflwynodd LH ei hun a dywedodd fod yr RCPs yn y broses o lunio eu cynllun tair blynedd ar gyfer y Senedd, gan edrych ar y tymor byr, y tymor canolig a’r tymor hir yn y sector adeiladu. Mae addysg bellach ac addysg uwch yn ymwneud yn weithredol â'r diwydiant.

Dywedodd LH wrth HID y bydd cynlluniau rhanbarthol yn cael eu llunio gan y grwpiau sector blaenoriaeth yn y pedair partneriaeth sgiliau rhanbarthol.

Soniodd AJ am waith Encon Construction a dywedodd nad oes dim byd pendant ar y gweill ar hyn o bryd i gynllunio ar gyfer y dyfodol. Mae'n anodd i'r diwydiant gynllunio yn wyneb ansicrwydd.

Roedd EE wedi datblygu cyflwyniad yn canolbwyntio ar gaffael a sut yr ymatebodd y diwydiant yn ystod cyfnod Covid, gan ymgysylltu â gwleidyddion yn llwyddiannus. Datblygwyd cynllun gweithredu yn ystod cyfnod Covid yn canolbwyntio ar chwe thema allweddol. Yn ystod y cyfnod anodd, datblygwyd perthynas waith dda rhwng y sector preifat a'r sector cyhoeddus.

Dywedodd AJ fod eu safleoedd ar gau am ddwy i dair wythnos yn ystod y cyfnod clo cyntaf yn sgil Covid, gan ailagor ym mis Mai 2020. Tua diwedd haf 2020, daeth staff a fu ar ffyrlo yn ôl. Mae wedi bod yn anodd rhagweld llif prosiectau ac i flaengynllunio ar gyfer cyflogi prentisiaid. O ran busnesau bach a chanolig, mae angen iddynt allu gweld llif y prosiectau sydd ar ddod, a bod y prosiectau hynny'n digwydd ar y dyddiadau a ddisgwyliwyd.

Dywedodd EE fod angen inni fod yn llawer callach o ran llif prosiectau a rhoi sicrwydd i'r diwydiant.

Dywedodd KP fod problemau o ran cynllunio wrth symud ymlaen a bod oedi, er enghraifft, wrth aros am awdurdodau lleol. Dylai gwaith adeiladu barhau drwy gyfnod yr argyfwng.

Dywedodd AJ fod y ffordd y mae gwerth cymdeithasol yn cael ei fesur ar hyn o bryd yn ad hoc iawn.

Dywedodd JW fod y diwydiant adeiladu yn fedrus iawn ac y bydd yn dod yn fwy technegol wrth symud ymlaen. Cyfeiriodd JW at swyddi medrus iawn yn Airbus fel enghraifft. Mae angen i ganfyddiadau pobl newid yn hyn o beth o ran deall bod angen lefel uchel o sgiliau i weithio yn y diwydiant.

Cytunodd GE fod angen sicrwydd ynghylch llif prosiectau a'i bod hi'n bwysig dilyn taith dysgwyr.

Dywedodd KP nad oes un ateb sy'n addas i bawb. Mae'n rhaid creu cyswllt cadarn ag ysgolion i sicrhau nad yw pobl ifanc yn mynd ar goll yn y system. Mae angen i'r rheini sydd wedi'u cofrestru â Llywodraeth Cymru fel cyflogwyr prentisiaid ddarparu'r wybodaeth hon i ysgolion er mwyn rhoi opsiynau i bobl ifanc nad ydynt yn academaidd. Mae angen gwella hyfforddiant yn y diwydiant er mwyn osgoi sefyllfaoedd fel Grenfell.

Rhoddodd MB grynodeb o'r cyfarfod.

Pwysleisiodd EE unwaith eto pa mor bwysig yw gwybod am y llif prosiectau.

Daeth JW â'r cyfarfod i ben.

## Lobïwyr proffesiynol, sefydliadau gwirfoddol ac elusennau y mae'r Grŵp wedi cyfarfod â hwy yn ystod y flwyddyn flaenorol.

[Rhowch enw'r lobïwr/sefydliad/elusen fel a ganlyn e.e.]

| Enw'r sefydliad: | Enw'r grŵp: |
|---|---|
| | |
| Enw'r sefydliad: | Enw'r grŵp: |
| | |

## Datganiad Ariannol Blynyddol:

| | |
|---|---|
| **Teitl y Grŵp Trawsbleidiol:** | Adeiladu |
| **Dyddiad:** | 23/12/21 |
| **Enw'r Cadeirydd:** | Joyce Watson AS |
| **Enw'r Ysgrifennydd a'r Sefydliad:** | Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu |

# Datganiad Ariannol  Blynyddol

# Grŵp Trawsbleidiol

| | | |
|---|---|---|
| **Treuliau'r Grŵp** | Dim. | £0.00 |
| **Costau'r holl nwyddau** | Ni phrynwyd nwyddau. | £0.00 |
| **Buddiannau a gafodd y grŵp neu Aelodau unigol gan gyrff allanol.** | Ni chafwyd buddiannau. | £0.00 |
| **Unrhyw gymorth ariannol neu gymorth arall.** | Ni chafwyd cymorth ariannol. | £0.00 |

Gwasanaethau a ddarparwyd i'r Grŵp, megis lletygarwch.

Yr holl letygarwch y talwyd amdano [gan gynnwys enw'r grŵp/sefydliad].

| **Dyddiad** | **Disgrifiad o'r darparwr a'i enw** | **Costau** |
|---|---|---|
| | | £0.00 |
| | **Cyfanswm y gost** | £0.00 |